Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 372 (Cy. 93)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

# Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru, mewn perthynas â monitro a rheoli afiechydon milheintiol yn gyffredinol, ac mewn perthynas â thwbercwlosis yn benodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 372 (Cy. 93)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni* | *28 Ionawr 2019* |
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *27 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2018 p. 16.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o "y Gyfarwyddeb";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Ym mharagraff (2), ystyr "y Gyfarwyddeb" yw Cyfarwyddeb 2003/99/EC Senedd Ewrop a'r Cygnor ar fonitro milheintiau a chyfryngau milheintiol(**2**)."

(3) Hepgorer rheoliad 3.

(4) Yn rheoliad 5—

(a) ar ddiwedd paragraff (d), mewnosoder "ac";

(b) hepgorer paragraff (e) a'r "ac" o'i flaen.

**Diwygio Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer y diffiniad o "statws rhydd rhag twbercwlosis".

(3) Yn erthygl 11(3), yn lle "pa un a oes gan y fuches sy'n cynnwys yr anifail hwnnw statws rhydd rhag twbercwlosis neu beidio" rhodder "pa un a yw'r fuches sy'n cynnwys yr anifail hwnnw yn fuches dan gyfyngiadau ai peidio".

(4) Yn erthygl 12(3A)(d), yn lle "bod y fuches odro wedi colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis" rhodder "ei bod yn fuches dan gyfyngiadau".

(5) Yn erthygl 14(4), yn lle "yn colli neu'n adennill ei statws rhydd rhag twbercwlosis" rhodder "yn dod neu'n peidio â bod yn fuches dan gyfyngiadau".

(6) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 8, yn lle is-baragraff (c) rhodder—

"(c) buches sydd wedi bod yn fuches dan gyfyngiadau ar unrhyw adeg yn ystod y 18 mis sy'n dod i ben ar ddyddiad y symud; neu".

(**1**) O.S. 2007/2459 (Cy. 207), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.J. Rhif L 325, 12.12.2003, t. 31, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor (EU) 2013/20/EU (O.J. Rhif L 158, 10.06.2013, t. 234).

(**3**) O.S. 2010/1379 (Cy. 122), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/692 (Cy. 104), 2014/632 (Cy. 72), 2015/1773 (Cy. 245), 2016/328 (Cy. 104), 2017/711 (Cy. 168).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
25 Chwefror 2019